# Cynorthwyo’r arweinydd merlota yn ystod taith ferlota

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo'r arweinydd merlota yn ystod taith ferlota i fonitro diogelwch ac esmwythdra cleientiaid a cheffylau, yn ogystal â chyfathrebu gyda phawb ar y daith ferlota.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. cynorthwyo'r arweinydd merlota yn ystod taith ferlota trwy fonitro marchogion, ceffylau ac amodau yn barhaus, yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
4. hysbysu'r arweinydd merlota ynghylch sefyllfaoedd peryglus yn brydlon yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
5. rhoi gwybodaeth i gleientiaid ar adegau a chyfnodau priodol yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfaoedd peryglus, pwyntiau o ddiddordeb lleol a chynnydd y daith ferlota
6. gweithredu cyfarwyddiadau'r arweinydd merlota bob amser
7. dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer marchogaeth ar y ffordd bob amser, yn unol â deddfwriaeth marchogaeth a diogelwch ar y ffordd
8. rhoi ceffyl ar dennyn tra'n cael ei farchogaeth a'i farchogaeth a'i arwain yn ôl y cyfarwyddyd
9. defnyddio technegau diogel a rheolaeth tra'n marchogaeth ac arwain
10. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. yr amodau diogel ar gyfer merlota a sut i fonitro amodau
4. goblygiadau cyfuniadau ceffylau/marchogion anghywir
5. sut mae'r tywydd yn effeithio ar dir gwahanol
6. y rhesymau dros fonitro aelodau'r daith ferlota yn barhaus
7. sut i adnabod cleientiaid mewn trallod
8. sut i adnabod problemau gyda cheffylau
9. sut mae Rheolau'r Ffordd Fawr a chodau cefn gwlad/mynediad eraill yn berthnasol i ferlotwyr
10. dulliau cyfathrebu'n effeithiol ar y daith ferlota
11. sut a phryd y dylid rhoi gwybodaeth am bwyntiau o ddiddordeb, cynnydd a rheolaeth wrth farchogaeth
12. sut i roi ceffyl ar dennyn tra'n cael ei farchogaeth a sut i farchogaeth ac arwain
13. sut y gallai cyflyrau meddygol cleient effeithio ar ei allu ef neu ei gallu hi ar y daith ferlota
14. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Rhoi'r wybodaeth ganlynol i gleientiaid:

- sefyllfaoed a allai fod yn beryglus
- pwyntiau o ddiddordeb lleol
- cynnydd y daith ferlota

Monitro ac adrodd ar yr amodau canlynol:

- y tywydd
- tir
- iechyd y cleient
- agwedd y cleient
- lles y ceffyl
- unrhyw beryglon i'r marchogion a'r ceffylau

Cynnal y gweithgareddau canlynol:

- rhoi ceffyl ar ffrwyn arwain tra'n cael ei farchogaeth
- arwain ceffyl yn gywir ac yn ddiogel, gan leihau unrhyw beryglon

Cynorthwyo'r arweinydd merlota yn ystod taith ferlota

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq229 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy- Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; taith ferlota; marchogaeth; arwain |